

# Cynllun Iaith Gymraeg

Cysylltu Bywydau Cymru

# 1. Cyflwyniad

Rhwydwaith o wasanaethau gofalu a chefnogi bychain iawn, teuluol a chymunedol yn y DU yw Cysylltu Bywydau Cymru (*Shared Lives Plus*) ar gyfer pobl anabl neu hŷn: yn fras, pobl gyffredin a theuluoedd yn cyfrannu at y gofal a'r gefnogaeth a roir i eraill, a hynny weithiau mewn ffyrdd eithriadol. Mae ein haelodau'n cynnwys gofaluwr a chydlynwyr **Cysylltu Bywydau**, **Homeshare** a **micro fentrau**. Rydym yn helpu'n aelodau i weithio gyda'i gilydd er mwyn medru dal ati i fyw a llwyddo ac yn cynnig cefnogaeth, hyfforddiant, digwyddiadau, adnoddau, rhaglenni ymchwil, mynediad i yswiriant a'r gallu i ddylanwadu ar wneuthurwyr polisïau.

Bydd ein haelodau yn datblygu gwasanaethau graddfa fechan o amgylch unigolion a theuluoedd er mwyn i bobl allu:

- cymryd rheolaeth o'u gwasanaethau a'u bywydau
- bwrw ymlaen â bywyd fel arfer yn eu cartrefi dewisol – trefniadau a pherthnasau
- cyfrannu at, a chael eu gwerthfawrogi gan y gymuned

Yn 2012, derbyniodd Cysylltu Bywydau Cymru grant gan Lywodraeth Cymru i ariannu swydd Gweithiwr Datblygu Cymru. Diben y swydd yw hyrwyddo model gofal Cysylltu Bywydau (*Shared Lives*) ar draws Cymru a gweithio ar y cyd gyda Cysylltu Bywydau Cymru - Pwyllgor Cymru - er mwyn rhoi llais cenedlaethol i gynlluniau Cysylltu Bywydau.

Yn ôl yr wybodaeth a ddarparwyd gan 10 cynllun yn 2012, mae 87 (16.4%) o ofaluwr Cysylltu Bywydau/Lleoli Oedolion yn siaradwyr Cymraeg. Roedd y rhan fwyaf o'r cynlluniau yn nodi'r siaradwyr iaith gyntaf yn unig ond llwyddodd rhai i'w rhannu yn siaradwyr iaith gyntaf (33) a phobl sydd wedi dysgu Cymraeg (54). Mae anghenion diwylliannol ac ieithyddol yn bwysig iawn yn nhrefniadau Cysylltu Bywydau Cymru. Fel y nodwyd yn un o'r cynlluniau, pan oedd defnyddwyr gwasanaeth oedd yn siarad Cymraeg yn cael eu paru gyda gofaluwr Saesneg eu hiaith, nid oedd defnyddwyr y gwasanaeth yn gallu mynegi eu hanghenion, ac o ganlyniad câi eu hymddygiad ei labelu, yn annheg felly, fel heriol. Mae Cysylltu Bywydau Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu strategaeth recriwtio ar gyfer gofaluwr Cysylltu Bywydau sy'n siarad Cymraeg.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("Y Mesur") yn gosod cyd-destun cyfreithiol newydd ar gyfer y Gymraeg. Wedi iddo dderbyn Cydsyniad Brenhinol ym Mis Chwefror 2011, sefydlwyd statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, yn ogystal â'r egwyddor gyffredinol na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru. Mae'r Mesur yn creu fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer gosod dyletswyddau ar bersonau sy'n gweithredu yng Nghymru mewn perthynas â'r Gymraeg, ac yn hynny o beth bydd, maes o law, yn disodli llawer o ddarpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ("Deddf 1993").

Nid yw Cysylltu Bywydau Cymru yn gorff cyhoeddus fel y diffinnir gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Er hyn, mae'r Cynllun Iaith Gymraeg yn cyd-fynd ag amcanion y sefydliad o ran gweithredu cyfleoedd cyfartal a pholisïau amrywiaeth. Mae Cysylltu

Bywydau Cymru wedi ymrwymo i'r dasg o weithio i sicrhau dewis iaith ac mae wedi datgan ei nod fel a ganlyn:

“Mae Cysylltu Bywydau Cymru yn ymroi i sicrhau fod gan ddefnyddwyr, staff a'r gwirfoddolwyr yr hawl i dderbyn ein gwasanaethau yn Gymraeg yng Nghymru pan mai dyna yw eu dewis iaith.’

Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg yn amlinellu sut bydd y sefydliad yn sicrhau darparu gwasanaethau a gweithrediadau dwyieithog mewn cyd-destun lle mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru.

Mae'r Cynllun hwn yn nodi'r gwasanaethau hynny sydd eisoes yn cael eu darparu yn y Gymraeg ac a fydd yn sylfaen i ddatblygiadau'r dyfodol. Mae'n amlinellu'r datblygiadau hynny ac yn darparu amserlen ar gyfer gweithredu. Amlinellir y trefniadau monitro yn nhermau elfennau unigol ac yn nhermau'r Cynllun fel cyfanwaith. Mae cynllun gweithredu cyflawn gan gynnwys dyddiadau targed wedi'i gynnwys yng nghefn y ddogfen (Atodiad 1).

Cyfrifoldeb corfforaethol Cysylltu Bywydau Cymru yw'r Cynllun iaith hwn a'i weithrediad ac mae hefyd yn gyfrifoldeb ar ei aelodau a'i staff yng Nghymru.

## 2. Datganiad

Mae Cysylltu Bywydau Cymru wedi mabwysiadu'r egwyddor wrth gynnal ei holl waith yng Nghymru y bydd yn ymdrin â'r Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal fel y bo'n addas o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.

Er nad oes gofyniad statudol ar Cysylltu Bywydau Cymru dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 i baratoi Cynllun Iaith Gymraeg, rydym yn teimlo'n gryf y dylid darparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd er mwyn parchu'r egwyddorion canlynol:

- y gall aelodau o'r cyhoedd fynegi barn a dweud beth yw eu hanghenion yn well yn eu dewis iaith
- pwysigrwydd darparu gwasanaethau yn unol â dewis iaith defnyddwyr gwasanaeth
- bod galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio eu dewis iaith yn elfen bwysig o arfer da
- y gallai gwrthod yr hawl iddynt ddefnyddio eu dewis iaith olygu bod aelodau'r cyhoedd dan anfantais.

At hyn, caiff ein gwaith yng Nghymru ei ariannu gan y cyhoedd, ac felly mae dyletswydd arnom ni i gynnig darpariaeth ddwyieithog i'r cyhoedd yn unol â'n canllawiau ariannu.

Mae'r Cynllun hwn yn egluro sut y bydd Cysylltu Bywydau Cymru yn gweithredu'r egwyddorion hyn wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, lle

mae hynny'n ymarferol ac yn briodol. Er mai yng Nghymru y bydd y Cynllun yn cael ei weithredu yn bennaf, bydd y Cynllun hwn yn cael ei gymeradwyo ar lefel y Deyrnas Unedig. Bydd pob aelod o staff yn ymwybodol o'i ddyletswydd i weithredu'r Cynllun lle bo hynny'n berthnasol. Os na allwn ddarparu gwasanaeth angenrheidiol yn y lle cyntaf yna byddwn yn gweithio tuag at ei ddarparu yn y dyfodol.

Bydd Cysylltu Bywydau Cymru yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg trwy ei weithgareddau a'i wasanaethau a byddwn yn annog siaradwyr Gymraeg i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.

Bydd Cysylltu Bywydau Cymru yn hyrwyddo'r Cynllun iaith Gymraeg i'w haelodau yng Nghymru gan edrych am eu hymroddiad a'u cefnogaeth er mwyn cyflwyno'r cynllun.

### 3. Cynllunio a chyflwyno gwasanaethau

#### 3.1 Polisiau a mentrau newydd

Trwy ystyried yr iaith Gymraeg ac anghenion unigolion wrth ddatblygu polisiau a mentrau newydd a diwygiedig gall Cysylltu Bywydau Cymru symud tuag at gyflawni amcanion y Cynllun hwn. Byddwn yn ceisio gwneud yn fawr o gyfleoedd o'r fath er mwyn symud yn nes at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb rhwng yr iaith Gymraeg a'r Saesneg.

Wrth gynllunio polisiau a mentrau newydd sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, bydd Cysylltu Bywydau Cymru yn sicrhau bod pob datblygiad yn cydymffurfio â'r ymrwymadau a nodwyd yn y Cynllun hwn. Bydd Cynllun Bywydau Cymru yn gwneud asesiad o anghenion ieithyddol y gynulleidfa darged er mwyn cynnig y gwasanaeth mwyaf effeithiol a gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

Fel sefydliad sydd â phencadlys y tu allan i Gymru byddwn yn sicrhau bod pob adran o'r sefydliad, boed yng Nghymru neu y tu allan, yn ymwybodol o ofynion y Cynllun hwn. Bydd cyfrifoldeb ar gyfarwyddwyr Cysylltu Bywydau Cymru i sicrhau gweithrediad y Cynllun. Bydd rhestr wirio ar gael i staff yn nodi materion i'w hystyried wrth ddatblygu polisiau a mentrau newydd. Bydd pwyllgor iaith Gymraeg yn monitro cydymffurfriad polisiau a mentrau newydd â'r Cynllun hwn.

Ni chaiff y Cynllun iaith hwn ei newid heb gytundeb Comisiynydd y Gymraeg.

#### 3.2 Darparu gwasanaethau

Y nod yw darparu gwasanaeth o safon uchel yn unol â'n hymrwymiad yn y Cynllun hwn. Caiff safon y gwasanaeth dwyieithog hwn ei adolygu'n rheolaidd, a'r nod fydd gwella'r safon honno'n barhaus.

Fel y nodir yn yr amserlen bydd Cysylltu Bywydau Cymru yn gweithio tuag at ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr i'r un safon uchel yn Gymraeg a Saesneg trwy:

- sicrhau bod staff/gwirfoddolwyr yn ymwybodol o oblygiadau'r Cynllun Iaith hwn
- darparu hyfforddiant ac arweiniad ar gyfer staff/gwirfoddolwyr i hwyluso'r broses o weithredu'r Cynllun. Bydd Cysylltu Bywydau Cymru yn mynd ar drywydd yr hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith sydd ar gael i sefydliadau'r trydydd sector, gan annog defnyddwyr y gwasanaeth i deimlo'n gyfforddus i ddefnyddio'r Gymraeg trwy wneud defnydd o'r adnoddau sydd ar gael, er enghraifft bathodynau a phosteri 'Iaith Gwaith'.
- dod o hyd i wasanaethau cyfieithu safonol a dibynadwy i sicrhau bod yr holl ddeunydd perthnasol yn cael ei gyfieithu'n effeithiol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn argymhell defnyddio cyfieithwyr proffesiynol.
- Bydd Cysylltu Bywydau Cymru yn hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu gyda'i aelodau yng Nghymru. Gall hyn gynnwys agor cyfarfodydd Pwyllgor Cysylltu Bywydau Cymru yn y Gymraeg a chynnwys defnydd o'r Gymraeg ar yr agenda.

#### 4. Cyfathrebu â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

##### 4.1 Cyfathrebu ysgrifenedig

Mae Cysylltu Bywydau Cymru yn croesawu cyfathrebu â Gweithiwr Datblygu Cymru yn y Gymraeg a Saesneg

- Ni fydd gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg ynddo'i hun yn arwain at oedi
- Bydd llythyrau a dderbynnir yn Gymraeg yn cael eu hateb yn Gymraeg.
- Bydd unrhyw ohebiaeth a ddaw gan y cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg.
  - Bydd y cyfnod ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg yr un fath â'r cyfnod ymateb i ohebiaeth yn Saesneg.
  - Bydd modd cyfathrebu â Gweithiwr Datblygu Cymru yn y Gymraeg os gofynnir am hynny. Unwaith y cawn wybod fod aelod o'r cyhoedd yn ffafrio'r defnydd o'r Gymraeg, bydd y person hwnnw/honno yn derbyn pob gohebiaeth yn y dyfodol yn Gymraeg.
  - Bydd Gweithiwr Datblygu Cymru yn cynnal cronfa ddata o gwsmeriaid y mae'n well ganddynt dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg, yn Saesneg neu yn ddwyieithog.
  - Pan nad oes gan Cysylltu Bywydau Cymru staff ar gael i ateb gohebiaeth mewn Cymraeg o safon ddigon uchel, byddwn yn defnyddio asiantaeth gyfieithu broffesiynol.

- Bydd papur pennawd a llofnod e-bost Cysylltu Bywydau Cymru yn cynnwys nodyn ar y gwaelod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

## 4.2 Cysylltiadau ffôn

Bydd pob galwad ffôn at Weithiwr Datblygu Cymru yn cael ei derbyn gyda chyfarfodiad dwyieithog safonol, sef:

*'Bore da Cysylltu Bywydau Cymru '* neu *'Prynhawn da Cysylltu Bywydau Cymru'*

Oherwydd nad yw'r Gweithiwr Datblygu Cymru presennol yn medru darparu gwasanaeth dwyieithog, bydd hi'n egluro'r sefyllfa wrth yr unigolyn ac yn rhoi dewis i'r galwr barhau â'r sgwrs yn Saesneg neu gynnal y sgwrs rywdro arall drwy gyfrwng y Gymraeg gyda chymorth cyfieithydd.

Bydd neges y peiriant ateb yn ddwyieithog ym mhob swyddfa yng Nghymru.

## 4.3 Cysylltiadau wyneb yn wyneb

Mae Cysylltu Bywydau Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r sefydliad yng Nghymru ac sy'n dymuno cael cyswllt wyneb yn wyneb yn Gymraeg yn gallu gwneud hynny. Efallai na fydd hyn yn bosibl ar bob adeg, ond byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod cyfieithydd ar gael pan fo angen.

## 4.4 Cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus

Pan fydd Cysylltu Bywydau Cymru yn trefnu cyfarfodydd mawr ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn sefydlu arferion safonol er mwyn darparu gwasanaethau ddwyieithog.

Bydd hysbysiadau pob cyfarfod cyhoeddus a chynhadledd yn ddwyieithog, a byddant yn cynnwys y datganiad y perchir hawl y rhai sy'n mynychu'r cyfarfod i siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Caiff anghenion cyfieithu eu hasesu cyn cynnal unrhyw gyfarfod cyhoeddus neu gynhadledd. Darperir cyfleusterau cyfieithu priodol ar sail yr asesiad. Os darperir cyfleusterau cyfieithu rhoddir gwybod ymlaen llaw bod croeso i unrhyw un siarad Gymraeg. Os ystyrir, ar sail yr asesiad, nad oes angen cyfleusterau cyfieithu neu na fyddant yn ymarferol bosibl, caiff hyn ei wneud yn glir ymlaen llaw. Gwneir yr asesiad ar sail pwrpas neu destun y cyfarfod, ei leoliad, y rhai sy'n debygol o'i fynychu ac unrhyw wybodaeth ymlaen llaw ynghylch y dewis iaith. Gwneir asesiad yn yr un modd ar yr angen i gael aelodau staff sy'n siarad Gymraeg i dderbyn a chroesawu'r cyhoedd mewn cyfarfodydd.

Gwisgir bathodynau sy'n dynodi siaradwyr Cymraeg er mwyn dangos pa staff neu wirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg.

## 5. Delwedd gorfforaethol

### 5.1 Hunaniaeth gorfforaethol

Bydd Cysylltu Bywydau Cymru a'i brif gontractwyr yn mabwysiadu delwedd gorfforaethol gwbl ddwyieithog yng Nghymru. Bydd deunyddiau ysgrifenedig, logos a sloganau yn ddwyieithog. Bydd papur pennawd, slipiau cyfarch a chardiau apwyntiad i gyd yn ddwyieithog gyda'r ddwy iaith yn gyfartal o ran fformat, maint, eglurder ac amlygrwydd.

Bydd pob hysbysiad cyffredinol a chyhoeddus a hysbyseb swydd a ddsberthir i'r cyfryngau yng Nghymru yn ddwyieithog. Bydd deunydd arddangos a gwybodaeth a ddefnyddir mewn arddangosfeydd a digwyddiadau yng Nghymru yn ddwyieithog.

### 5.2 Arwyddion

Yng Nghymru, wrth adnewyddu arwyddion, bydd pob arwydd allanol a phob arwydd mewnol mewn manau cyhoeddus yn adeiladau Cysylltu Bywydau Cymru yn ddwyieithog ac yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd ac amlygrwydd. Gosodir y fersiwn Cymraeg uchaf neu o flaen y fersiwn Saesneg. Lle bo rhaid defnyddio arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant hefyd yn gyfartal.

## 6. Cyhoeddiadau

### 6.1 Dogfennau

Mae Cysylltu Bywydau Cymru yn anelu at gyhoeddi eu holl ddeunyddiau ymgyrchu perthnasol yng Nghymru yn ddwyieithog mewn un ddogfen. Os bydd hi'n angenrheidiol, am ba reswm bynnag e.e. maint y ddogfen, bydd Cysylltu Bywydau Cymru yn cyhoeddi fersiwn Cymraeg a Saesneg ar wahân, a byddwn yn eu cyhoeddi ar yr un pryd.

Bydd dogfennau dwyieithog yn cynnwys rhai a ddsberthir neu a ddarperir ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol, ac yn:

- darparu gwybodaeth am wasanaethau Cysylltu Bywydau Cymru
- esbonio a chynghori ar bolisiâu, mentrau, datblygiadau a gwasanaethau newydd Cysylltu Bywydau Cymru
- holi barn y cyhoedd wrth ymgynghori

Byddwn yn sicrhau bod y testun Cymraeg o ansawdd uchel ac yn y cywair priodol gan roi sylw i'r gynulleidfa darged.

Bydd deunyddiau gwybodaeth ymgyrchu ac adroddiadau polisi allanol a gynhyrchir gan Cysylltu Bywydau Cymru i'w dosbarthu ar draws y DU yn cael eu hasesu i weld a oes angen fersiynau dwyieithog.

Anaml y caiff dogfennau polisi ac ymchwil technegol a gynhyrchir gan Cysylltu Bywydau Cymru ar gyfer y DU eu cyfieithu gan fod y deunyddiau hyn yn gostus yn aml, a chyfyngedig fyddai eu dosbarthiad yng Nghymru. Caiff y tîm cynllunio mewnol wybodaeth am y Cynllun a bydd proses yn cael ei sefydlu i gynhyrchu deunyddiau dwyieithog. Bydd matrices o feini prawf ar gyfer penderfynu a ddylid cynhyrchu deunyddiau yn ddwyieithog yn cael ei ddefnyddio.

## 7. Datganiadau i'r wasg

Rydym wedi ymrwmo i gyhoeddi datganiadau a hysbysiadau dwyieithog i'r wasg a'r cyfryngau yng Nghymru pryd bynnag y bo hynny'n bosibl.

- Bydd datganiadau i'r wasg ar gyfer y cyfryngau yng Nghymru yn ddwyieithog. Deallir bod rhai achlysuron, mewn argyfwng, pan fydd rhaid gwneud datganiadau i'r wasg yn Saesneg yn unig, ond ym mhob sefyllfa arall bydd y broses gyfieithu wedi'i hymgorffori o fewn yr amserlen gynllunio.
- Ym mhob datganiad i'r wasg, rhoddir manylion cyswllt cynrychiolydd Cysylltu Bywydau Cymru sy'n siarad Cymraeg. Bydd awdurdod gan y person hwn i gynrychioli Cysylltu Bywydau Cymru yn llawn o fewn ffiniau ei wybodaeth. Byddwn yn cadw rhestr o gysylltiadau addas.

## 8. Gwefannau a Thechnoleg Gwybodaeth



Bydd adrannau neu dudalennau gwe ar wefan allanol Cysylltu Bywydau Cymru sy'n benodol berthnasol i'n gweithgareddau yng Nghymru yn ymddangos yn ddwyieithog. Bydd tudalennau rhanbarth Cymru ar y brif wefan yn gwbl ddwyieithog. Bydd gan bob tudalen Saesneg dudalen cyfatebol unfath yn Gymraeg. Bydd y ddwy iaith yn cael eu harddangos ar wahân, a bydd modd i'r defnyddiwr drosglwyddo o un iaith i'r llall ar unrhyw adeg trwy ddefnyddio'r botwm iaith amlwg.

## 8.1 Fforymau Trafod a Rhwydweithiau Electronig

Ni fydd testun Saesneg sydd wedi cael ei roi ar y safle gan barti allanol yn cael ei gyfieithu, er enghraifft, sefydliadau sydd wedi cofrestru sefydliad neu brosiect. Wrth lwytho gwybodaeth, bydd y wefan yn amlygu i'r defnyddiwr nad yw'r rhan Gymraeg wedi ei chwblhau, a'u cyfrifoldeb hwy yw gwneud hynny.

Wrth gynllunio neu ailddatblygu gwefannau neu unrhyw wasanaeth technoleg gwybodaeth arall, byddwn yn rhoi ystyriaeth i ganllawiau Comisiynydd y Gymraeg: 'technoleg, gwefannau a meddalwedd: ystyried y Gymraeg'.

## 9. Gweithredu'r Cynllun

### 9.1 Staffio

Bydd Cysylltu Bywydau Cymru yn gwneud pob ymdrech i sicrhau fod Gweithiwr Datblygu Cymru yn gallu darparu gwasanaeth i siaradwyr Gymraeg sy'n cysylltu â hi.

Bydd Cysylltu Bywydau Cymru yn asesu pa sgiliau iaith sy'n angenrheidiol i bob gweithle ac ar gyfer pob gweithgaredd craidd er mwyn gweithredu'r Cynllun hwn. Bydd Cysylltu Bywydau Cymru yn asesu a yw sgiliau iaith Gymraeg yn angenrheidiol neu'n ddymunol ar gyfer pob swydd newydd – boed hynny ar gyfer staff cyflogedig, gwirfoddolwyr neu ymddiriedolwyr – er mwyn sicrhau ei fod yn gallu cyflawni ei ymrwymadau yn unol â'r Cynllun hwn.

Lle ceir penderfyniad bod sgiliau iaith Gymraeg yn angenrheidiol neu'n ddymunol ar gyfer swydd arbennig, bydd y disgrifiad swydd a'r manyldeb person yn nodi'r union sgiliau iaith sydd eu hangen - boed y rheiny'n sgiliau gwranddo, darllen, llafar neu ysgrifenedig - ac ym mha destun y bydd angen pob sgil.

Bydd pob swydd yng Nghymru'n cael ei hysbysebu'n ddwyieithog, gan fanteisio ar unrhyw gyfle i hysbysebu mewn cyhoeddiadau Gymraeg a Saesneg. Bydd yr hysbysiad swydd yn nodi'n glir a yw'r Gymraeg yn sgil hanfodol neu ddymunol ar gyfer y swydd.

### 9.2 Hyfforddiant

Cynigir hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg i'r holl staff sy'n gweithio yng Nghymru. Gellir defnyddio'r DVDs a neu'r pecyn pan nad yw hyfforddiant wyneb yn wyneb yn bosib neu ymarferol.

Mae pob aelod o staff yn cael hyfforddiant er mwyn gweithredu'r Cynllun hwn. Caiff gweithwyr sydd ddim yn siarad Cymraeg hyfforddiant ar sut i gyfarch a/neu ateb y ffôn yn ddwyieithog, yn ogystal â sut i ynganu enwau a lleoedd Cymraeg. Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu er mwyn galluogi staff i gyfeirio ymholiadau a dderbynnir yn y Gymraeg at aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg pan fo angen.

Darperir cefnogaeth a hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr o ran defnyddio'r Gymraeg er mwyn iddynt ennill sgiliau a gwella eu sgiliau presennol. Bydd dyrannu adnoddau Cysylltu Bywydau Cymru (h.y. ariannu uniongyrchol ac amser yn ystod oriau gwaith) yn ddibynnol ar asesiad o anghenion hyfforddi a blaenoriaethau parthed lles o ran darpariaeth gwasanaethau.

Sefydlir dulliau gweithredu ar gyfer monitro'r gwasanaeth, nodi'r diffygion a phenderfynu beth ddylid ei wneud.

## 9.2 Dysgu Cymraeg

Mae Cysylltu Bywydau Cymru yn cymell a chefnogi staff fydd am ddysgu neu wella'u Cymraeg ac yn annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith ar bob achlysur ymarferol.

Byddwn yn cynnal asesiad o anghenion gweithwyr yng Nghymru er mwyn nodi staff a allai elwa o raglenni hyfforddi, cefnogaeth ariannol neu wrth neilltuo amser gwaith gan Cysylltu Bywydau Cymru er mwyn:

- helpu gweithwyr sy'n siarad Cymraeg sydd angen datblygu eu sgiliau iaith er cyflawni eu dyletswyddau
- darparu aelodau staff Cymraeg gyda'r sgiliau gweinyddol, technegol neu weithredol addas i ddarparu gwasanaeth Cymraeg ar gyfer cwsmeriaid
- darparu gwybodaeth benodol am agweddau o'r gwasanaethau
- datblygu sgiliau Cymraeg aelodau staff Di-Gymraeg.

Cynhelir archwiliadau rheolaidd o broffil iaith defnyddwyr gwasanaeth, staff a gwirfoddolwyr er mwyn sicrhau bod anghenion iaith Gymraeg y sefydliad yn parhau i gael eu bodloni gan ein Cynllun iaith a'r rhaglen hyfforddi. Bydd yr archwiliad yn nodi'r swyddi hynny lle mae sgiliau siarad Cymraeg yn hanfodol ac union lefel y sgiliau sydd eu hangen.

Addasir dulliau'r sefydliad o ddynodi gwariant ac adnoddau i adlewyrchu hyn. Y nod yw normaleiddio gwariant a'r defnydd o adnoddau ar wasanaethau iaith Gymraeg nes ei bod yn hollol naturiol i ddarparu gwasanaethau yn y ddwy iaith swyddogol yng Nghymru ac i drefnu adnoddau er mwyn cwrdd â'r amcan hwnnw.

## 10. Gweithredu a monitro

### 10.1 Monitro

Bydd Gweithiwr Datblygu Cymru yn darparu adroddiad monitro a gwerthuso i'w gyflwyno i Brif Weithredwr Cysylltu Bywydau Cymru, ac anfonir copi at Gomisiynydd y Gymraeg am adborth yn flynyddol.

Yn seiliedig ar dempled adrodd Comisiynydd y Gymraeg bydd y pwyntiau canlynol yn cael eu monitro ac yn ffurfio rhan o'r adroddiad:

- Cynnal y Cynllun
- Blaengynllunio
- Ymwybyddiaeth
- Sgiliau Dwyieithog
- Rhoi'r Defnyddiwr yn Gyntaf
- Cwynion
- Casglu Data
- Adrodd
- Amserlen Weithredu

Bydd Cysylltu Bywydau Cymru yn adolygu ac yn diwygio'r Cynllun bob tair blynedd mewn cydweithrediad â Chomisiynydd y Gymraeg.

## 10.2 Cwynion ac adborth

Bydd pob cwyn ynghylch gweithredu'r Cynllun yn cael ei chyflwyno'n lleol a'i monitro gan Bennaeth Cysylltu Bywydau.

Mae Cysylltu Bywydau Cymru yn croesawu awgrymiadau gan y cyhoedd, ei staff a'i aelodau am welliannau i'w Gynllun Iaith Gymraeg a'i wasanaethau. Dylid cyfeirio pob awgrym at: Gweithiwr Datblygu Cymru, dan ofal Yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr/Carers Trust, Trydydd Llawr, 33-35 Heol y Gadeirlan/Cathedral Road, CF11 9HB

## 11. Hysbysebu'r Cynllun a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd

Bydd Cysylltu Bywydau Cymru yn cyfeirio at y Cynllun yn ei adroddiad blynyddol, cynllun busnes a deunyddiau cwsmeriaid cyffredinol, a bydd yn gwneud yn glir fod croeso i gwsmeriaid ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r cwmni a'i weithwyr.

Bydd Cysylltu Bywydau Cymru yn darparu copiâu o'r Cynllun ar gyfer cwsmeriaid ar gais. Bydd Cysylltu Bywydau Cymru yn croesawu awgrymiadau i wella'r Cynllun gan gwsmeriaid a gweithwyr. Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau at Weithiwr Datblygu Cymru.

Atodiad 1  
Amserlen a Chynllun Gweithredu

<b>MAES GWEITHGAREDD</b>	<b>GWEITHREDU</b>	<b>GAN BWY</b>	<b>AMSERLEN</b>
<b>3.1 Polisiau a mentrau newydd</b>			
<b>3.2 Darparu gwasanaethau</b>			
<b>4. Cyfathrebu â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg</b>			
<b>4.1 Cyfathrebu ysgrifenedig</b>	Cynnwys y categori Iaith Gymraeg yng nghronfa ddata'r gofalwr Cyfieithu'r papur pennawd a'r llofnod	Gweithiwr Datblygu Cymru	Hydref 2013
<b>4.2 Cysylltiadau ffôn</b>	Dechrau defnyddio cyfarchiad dwyieithog Rhoi neges ddwyieithog ar y peiriant ateb	Gweithiwr Datblygu Cymru	Awst 2013 Hydref 2013
<b>4.3 Cysylltiadau wyneb yn wyneb</b>			
<b>4.4 Cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus</b>			
<b>5. Delwedd gorfforaethol</b>			
<b>5.1 Hunaniaeth gorfforaethol</b>	Cyfieithu ac argraffu'r cardiau	Gweithiwr Datblygu Cymru	Ionawr 2014
<b>5.2 Arwyddion</b>			

<b>6. Cyhoeddiadau</b>			
<b>7. Datganiadau i'r wasg</b>	Penodi cynrychiolydd sy'n siarad Cymraeg i'w gynnwys/chynnwys ym mhob datganiad i'r wasg	Gweithiwr Datblygu Cymru / Cysylltu Bywydau Cymru	Hydref 2013
<b>8. Gwefannau a Thechnoleg Gwybodaeth</b>	Sicrhau fod tudalennau rhanbarth Cymru ar wefan Cysylltu Bywydau Cymru yn ddwyieithog a bod y dolenni priodol ar gael	Gweithiwr Datblygu Cymru / Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu	Mai 2014
<b>9. Gweithredu'r Cynllun</b>			
<b>9.1 Staffio</b>			
<b>9.2 Dysgu Cymraeg</b>	Mynychu'r hyfforddiant am ddim a ddarperir gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg	Swyddog Datblygu Cymru	Rhagfyr 2013
<b>10. Gweithredu a monitro</b>			
<b>10.1 Monitro ac adolygu</b>			
<b>10.2 Cwynion ac adborth</b>			
<b>11. Hysbysebu'r Cynllun</b>			

## Atodiad 2 –

Cynulleidfa	Aelodaeth Cysylltu Bywydau (gofalwyr a chynlluniau)	Gofalwyr Cysylltu Bywydau	Cynlluniau Cysylltu Bywydau	Cynulleidfa allanol
Dosbarthiad	Cymru yn unig	Ledled y Deyrnas Unedig	Rhanbarthau eraill	
Nifer	0 – 1,000 gair	1,000 – 5,000 gair	Dros 5,000 – 10,000 gair	Dros 10,000 gair*

Blychau gwyrdd i gyd – cyfieithu'r deunyddiau  
 Cyfuniad o'r gwyrdd a'r melyngoch – ystyried cyfieithu'r deunyddiau  
 Cyfuniad sy'n cynnwys y lliw coch – peidio cyfieithu'r deunyddiau

\* Ar gyfer dogfennau dros 10,000 gair, os yn bosib, cynhyrchu crynodeb yn Gymraeg